| **GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG** | |
|---|---|
| **161 - Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Cymru a Lloegr) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 13 Mai 2020* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 2 Mehefin 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 2 Mehefin 2020 |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 18 Mehefin 2020 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 9 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Heb ei argymell i'w uwchraddio |
| Gweithdrefn | Gwneud Negyddol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Gwneir y Rheoliadau hyn er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE. Maent yn caniatáu i Weinidogion Cymru barhau i arfer rhai pwerau yn Neddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 ar ôl i'r cyfnod gweithredu ddod i ben. Mae'r pŵer yn ymwneud â rheoleiddio gweithgareddau sy'n gallu achosi llygredd amgylcheddol mewn cysylltiad â rhai Cyfarwyddebau gan yr UE a ddynodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru. Mae'r cyfarwyddebau'n

ymwneud â gwastraff; ansawdd dŵr; ansawdd aer; llygredd asbestos; cyfranogiad y cyhoedd mewn cynlluniau a rhaglenni amgylcheddol; atebolrwydd amgylcheddol (i atal difrod amgylcheddol neu gymryd camau adfer yn sgil difrod o'r fath); sŵn amgylcheddol; a chemegau**.**

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylw canlynol mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru ar 27 Mai 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

Yn y paragraff sy'n ystyried pa effaith y gall y Rheoliadau ei chael ar gymhwysedd, mae'r datganiad yn nodi bod pwerau presennol Gweinidogion Cymru wedi'u diwygio i sicrhau y byddant yn gallu parhau i gyflwyno deddfwriaeth ar ôl y diwrnod pan fydd y DU yn ymadael, a dylai nodi **ar ôl i'r cyfnod gweithredu ddod i ben** yn y man hwn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.